| | | |
|---|---|---|
| Enw'r Polisi: | **Polisi Rheoli Presenoldeb** | Rhif y Polisi: **P1617-947** |
| Perchennog y Polisi: | **Pennaeth Partneriaeth Busnes (Adnoddau Dynol)** | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cyhoeddi/Adolygu Diwethaf: **Ebrill 2017** | Dyddiad Adolygu Nesaf: **Mehefin 2020** |
| Deddfwriaeth Berthnasol / Arweiniad gan ACAS os yn berthnasol: | • **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br>• **Deddf Mynediad at Gofnodion Meddygol 1988**<br>• **Rheoliadau Amser Gwaith 1998**<br>• **Deddf Iechyd a Diogelwch 1974** |
| Dogfennau sy'n cael eu disodli: | **Polisi Rheoli Absenoldeb Salwch (P1415-1394)** |

**Datganiad Polisi:**

**Pwrpas**

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo i hybu iechyd, diogelwch a lles ei holl staff. Lluniwyd y polisi hwn i hybu arfer da ac i ddarparu fframwaith i reoli presenoldeb mewn modd effeithiol. Ei nod yw cefnogi aelodau staff i gyrraedd y lefel uchaf posibl o bresenoldeb, wrth gadw at ddull teg, sensitif a chyson o reoli absenoldeb.

**Cwmpas**

Mae'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn berthnasol i bob gweithiwr yn y Brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â rheoli presenoldeb gweithiwr yn dilyn salwch neu anaf personol. Dylid rheoli diffyg presenoldeb oherwydd amgylchiadau eraill, fel salwch neu anaf dibynnydd, yn unol â pholisi'r Brifysgol ar Absenoldeb i Ofalu am eich Dibynyddion.

**Prif Egwyddorion**

❖ Dylid gweithredu'r polisi hwn, a'r gweithdrefnau sy'n ei gefnogi, mewn dull cyson, diduedd, rhesymol a hynny heb ragfarn
❖ Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i ddangos dealltwriaeth ac i fod yn gefnogol wrth fynd ati i reoli presenoldeb. Bydd yn ystyried amgylchiadau'r unigolyn, fel sy'n briodol, wrth weithredu'r polisi a'r gweithdrefnau hyn
❖ Os oes gan aelod o staff anabledd, rheolir absenoldeb sy'n deillio o'r anabledd ar sail unigol, a cheisir cyngor meddygol priodol
❖ Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod bod absenoldeb oherwydd afiechyd a salwch yn cael effaith sylweddol ar gost ac ansawdd y gwasanaethau mae'n eu darparu, ac felly bydd am reoli a chefnogi presenoldeb er mwyn lleihau effaith absenoldeb ar y gwasanaethau a ddarperir.
❖ Bydd yn Brifysgol yn gweithredu systemau a gweithdrefnau addas er mwyn sicrhau bod salwch ac absenoldeb sydd heb ei awdurdodi yn cael ei adrodd, ei fonitro a'i reoli'n amserol

**Diffiniadau o'r termau Adnoddau Dynol a ddefnyddir yn y polisi hwn:**

ddim yn berthnasol

**Gweithdrefnau Cefnogol/Dogfennau Arweiniad/Codau Ymarfer, gyda Rhifau Polisi a dolenni:**

❖ Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Presenoldeb
❖ Rheoli Presenoldeb - Canllaw i Reolwyr
❖ Rheoli Presenoldeb - Canllaw i Weithwyr